At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 11 Rhagfyr 2024

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 17 RHAGFYR 2024** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd 2024 (copi ynghlwm).

**5** **STRATEGAETH DDRAFFT TOILEDAU LLEOL** (Tudalennau 15 - 78)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant (copi'n amgaeëdig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth Ddrafft Toiledau Lleol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**6** **GOSOD RHENTI TAI A CHYLLIDEBAU CYFALAF A REFENIW TAI 2025/26** (Tudalennau 79 - 118)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynyddu rhent blynyddol Tai Sir Ddinbych, Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2025/26 a Chynllun Busnes y Stoc Dai.

**7** **ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 119 - 172)

Ystyried adroddiad **(sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol)** gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**8** **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 173 - 182)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD
Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**9** **GWASANAETH CEFNOGAETH ATAL DIGARTREFEDD A CHAM-DRIN DOMESTIG SIR DDINBYCH, PROSIECT GRANT CEFNOGI TAI (HSG) - AILGARTREFU'N GYFLYM** (Tudalennau 183 - 234)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn cynnwys canlyniad yr ymarfer tendro ar gyfer Gwasanaeth Cefnogi Atal Digartrefedd a Cham-drin Domestig yn ôl y angen a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyfarnu'r contract i'r darparwr penodol yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

**10 PENODI CONTRACTWYR AR GYFER FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW AC AILWAMPIO TAI GWAG** (Tudalennau 235 - 262)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn cynnwys canlyniad y broses gaffael Y Fframwaith Tai Gwag a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyfarnu'r fframwaith i'r darparwr penodol yn unol ag argymhellion yr adroddiad.

**11 MARCHNAD Y FRENHINES Y RHYL GWEITHREDIADAU / RHEOLI** (Tudalennau 263 - 328)

Ystyried cyd-adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd a Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddatblygu a dyfarnu contract i reoli Marchnad y Frenhines yn y Rhyl.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Gwyneth Ellis
Elen Heaton
Alan James
Diane King
Julie Matthews
Jason McLellan
Barry Mellor
Rhys Thomas
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned